



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2020 Rhif 1612 (Cy. 337)**

**2020 No. 1612 (W. 337)**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**EXITING THE EUROPEAN  
UNION, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID,  
CYMRU**

**ANIMAL HEALTH, WALES**

Rheoliadau'r Fasnach mewn  
Anifeiliaid a Chynhyrchion  
Perthynol (Cymru) (Diwygio)  
(Ymadael â'r UE) 2020

The Trade in Animals and Related  
Products (Wales) (Amendment)  
(EU Exit) Regulations 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16) in order to address failures of retained EU law to operate effectively and other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

These Regulations make amendments to legislation relevant to the trade in animals and related products.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2020 Rhif 1612 (Cy. 337)**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID,  
CYMRU**

Rheoliadau'r Fasnach mewn  
Anifeiliaid a Chynhyrchion  
Perthynol (Cymru) (Diwygio)  
(Ymadael â'r UE) 2020

*Gwnaed* 17 Rhagfyr 2020

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 2(2) i'r Ddeddf honno, i'r graddau y daw'r Rheoliadau hyn i rym cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi(3).

- 
- (1) 2018 p. 16. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).
- (2) Diwygiwyd paragraff 4 o Atodlen 2 gan adran 27(7)(a) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).
- (3) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**2020 No. 1612 (W. 337)**

**EXITING THE EUROPEAN  
UNION, WALES**

**ANIMAL HEALTH, WALES**

The Trade in Animals and  
Related Products (Wales)  
(Amendment) (EU Exit)  
Regulations 2020

*Made* 17 December 2020

*Coming into force in accordance with  
regulation 1(2) and (3)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 and paragraph 21 of Schedule 7 to the European Union (Withdrawal) Act 2018(1), make the following Regulations.

In accordance with paragraph 4 of Schedule 2(2) to that Act, to the extent that these Regulations are to come into force before implementation period completion day, the Welsh Ministers have consulted with the Secretary of State.

In accordance with paragraph 1(9) of Schedule 7 to that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru(3).

- 
- (1) 2018 c. 16. Paragraph 21 of Schedule 7 was amended by paragraph 53 of Part 2 of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1).
- (2) Paragraph 4 of Schedule 2 was amended by section 27(7)(a) of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1).
- (3) The reference in the European Union (Withdrawal) Act 2018 to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

# RHAN 1

## Rhagarweiniol

### Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw Rhan 1 a Rhan 3 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Daw Rhan 2 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

## RHAN 2

### Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

#### Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

2. Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

#### 3. Yn rheoliad 2—

##### (a) ym mharagraff (1)—

##### (i) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“mae i “DMIG” (“*CHED*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 10;”;

“mae i “safle rheoli ar y ffin” (“*border control post*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 11;”;

“ystyr “system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol” (“*appropriate computerised information management system*”) yw'r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol ar gyfer rheolaethau swyddogol y cyfeirir ati yn Erthygl 131 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;”;

“ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw unrhyw wlad neu diriogaeth heblaw Ynysoedd Prydain.”;

##### (ii) yn y diffiniad o “mewnforiwr” (“*importer*”), yn lle “i'r Deyrnas Unedig” rhodder “i Ynysoedd Prydain”;

# PART 1

## Introductory

### Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Trade in Animals and Related Products (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2020.

(2) Part 1 and Part 3 come into force immediately before implementation period completion day.

(3) Part 2 comes into force on implementation period completion day.

## PART 2

### Amendment of the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011

#### Amendment of the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011

2. The Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011(1) are amended as follows.

#### 3. In regulation 2—

##### (a) in paragraph (1)—

##### (i) in the appropriate places insert—

““appropriate computerised information management system” (“*system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol*”) means the computerised information management system for official controls referred to in Article 131 of the Official Controls Regulation;”;

““border control post” (“*safle rheoli ar y ffin*”) has the meaning given in regulation 11;”;

““CHED” (“*DMIG*”) has the meaning given in regulation 10;”;

““third country” (“*trydedd wlad*”) means any country or territory other than the British Islands.”;

##### (ii) in the definition of “importer” (“*mewnforiwr*”), for “United Kingdom” substitute “British Islands”;

(1) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1152 (Cy. 234), O.S. 2018/1216 (Cy. 249), O.S. 2019/463 (Cy. 111), O.S. 2019/597 (Cy. 126), O.S. 2019/799 (Cy. 151), O.S. 2020/44 (Cy. 5) ac O.S. 2020/177 (Cy. 38).

(1) S.I. 2011/2379 (W. 252), amended by S.I. 2018/1152 (W. 234), S.I. 2018/1216 (W. 249), S.I. 2019/463 (W. 111), S.I. 2019/597 (W. 126), S.I. 2019/799 (W. 151), S.I. 2020/44 (W. 5) and S.I. 2020/177 (W. 38).

- (iii) yn y diffiniad o “rheolaethau swyddogol dwysach” (*“intensified official controls”*), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
  - (iv) yn y diffiniad o “rheolaethau swyddogol” (*“official controls”*), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
  - (v) yn y diffiniad o “cynnyrch” (*“product”*), yn lle “arolygfeydd ffin” rhodder “safleoedd rheoli ar y ffin”;
- (b) hepgorer paragraff (2);
- (c) ym mharagraff (3)—
- (i) yn is-baragraff (a), yn lle “mae “Rheoliad yr UE” (*“the EU Regulation”*)” rhodder “mae’r “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol” (*“Official Controls Regulation”*)”;
  - (ii) hepgorer is-baragraff (ch).
- 4. Yn rheoliad 3—**
- (a) yn lle’r pennawd rhodder “**Anifeiliaid anwes**”;
  - (b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—
 

“(1A) Yn ychwanegol at ofynion y Rheoliadau hyn, ni chaniateir symud cŵn, cathod a ffuredau sydd heb eu hesemptio gan baragraff (1) i Gymru o drydedd wlad oni bai eu bod yn cydymffurfio â’r gofynion a nodir yn—

    - (a) pwyntiau (a) i (d) o Erthygl 10(1) o’r Rheoliad Anifeiliaid Anwes, yn ddarostyngedig i baragraff (1) o Erthygl 12 i’r Rheoliad hwnnw; a
    - (b) Penderfyniad Gweithredu’r Comisiwn (EU) 2019/294 yn nodi’r rhestr o diriogaethau a thrydydd gwledydd a awdurdodir o ran mewnfurfio cŵn, cathod a ffuredau a’r dystysgrif iechyd anifeiliaid enghreifftiol ar gyfer mewnfurion o’r fath.”
- 5. Hefgorer rheoliad 4.**
- 6. Hefgorer Rhan 2.**
- 7. Yn rheoliad 9—**
- (a) yn lle “Mae’r Rhan hon” rhodder “Yn ddarostyngedig i reoliad 26, mae’r Rhan hon”;
  - (b) yn lle “o wlad sydd y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “o drydedd wlad”.
- (iii) in the definition of “intensified official controls” (*“rheolaethau swyddogol dwysach”*), for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”;
  - (iv) in the definition of “official controls” (*“rheolaethau swyddogol”*), for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”;
  - (v) in the definition of “product” (*“cynnyrch”*), for “inspection” substitute “control”;
- (b) omit paragraph (2);
- (c) in paragraph (3)—
- (i) in sub-paragraph (a), for ““the EU Regulation” (*“Rheoliad yr UE”*)” substitute ““Official Controls Regulation” (*“Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”*)”;
  - (ii) omit sub-paragraph (d).
- 4. In regulation 3—**
- (a) for the heading substitute “**Pet animals**”;
  - (b) after paragraph (1) insert—
 

“(1A) In addition to the requirements of these Regulations, dogs, cats and ferrets not exempted by paragraph (1) must not be moved into Wales from a third country unless they comply with the requirements set out in—

    - (a) points (a) to (d) of Article 10(1), subject to paragraph (1) of Article 12, of the Pets Regulation; and
    - (b) Commission Implementing Decision (EU) 2019/294 laying down the list of territories and third countries authorised for imports of dogs, cats and ferrets and the model animal health certificate for such imports.”
- 5. Omit regulation 4.**
- 6. Omit Part 2.**
- 7. In regulation 9—**
- (a) for “This Part” substitute “Subject to regulation 26, this Part”;
  - (b) for “country outside the European Union” substitute “third country”.

8. Yn rheoliad 10(4), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

9. Yn rheoliad 11—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “o Reoliad yr UE” yn y lle cyntaf y mae’n digwydd hyd at y diwedd rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (b) ym mharagraff (2), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (c) ym mharagraff (4), hepgorer “, a rhaid iddo hysbysu’r Comisiwn am yr ataliad dros dro a’r rheswm drosto”.

10. Yn rheoliad 14—

- (a) ym mharagraff (1), ar ôl “neu gynhyrchion” mewnosoder “, drwy’r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol,”;
- (b) ym mharagraff (3), yn lle “DMMG” rhodder “DMIG”.

11. Yn rheoliad 15—

- (a) ym mharagraff (1)—
  - (i) yn lle “â’r ddogfennaeth a bennir ar gyfer y llwyth hwnnw yn y ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodlen 1” rhodder “â’r dystysgrif iechyd allforio berthnasol, yn y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu’r Ysgrifennydd Gwladol, a dogfennaeth arall a bennir ar gyfer y llwyth hwnnw yng nghyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy’n ymwneud â mewnfario”;
  - (ii) yn is-baragraff (a), yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (b) ym mharagraff (4)—
  - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “yn y rhestr” hyd at y diwedd rhodder “mewn rhestr a lunnir yn unol â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar gyfer y rhywogaeth dan sylw neu y gwaherddir mewnfario ohoni fel arall o dan y ddeddfwriaeth honno o drydydd gwledydd a gymeradwywyd, neu os gwaherddir mewnfario o’r wlad neu’r diriogaeth honno fel arall”;
  - (ii) yn is-baragraff (c), yn lle “yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy’n ymwneud â mewnfario”;

8. In regulation 10(4), for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”.

9. In regulation 11—

- (a) in paragraph (1), for “EU Regulation” where it first occurs to the end substitute “Official Controls Regulation”;
- (b) in paragraph (2), for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”;
- (c) in paragraph (4), omit “, and must inform the Commission of the suspension and the reason”.

10. In regulation 14—

- (a) in paragraph (1), after “must notify” insert “, through the appropriate computerised information management system,”;
- (b) in paragraph (3), for “CVED” substitute “CHED”.

11. In regulation 15—

- (a) in paragraph (1)—
  - (i) for “documentation specified for that consignment in the relevant legislation listed in Schedule 1” substitute “relevant export health certificate, in the form published by the Welsh Ministers or the Secretary of State, and other documentation specified for that consignment in retained direct EU legislation relating to importation”;
  - (ii) in sub-paragraph (a), for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”;
- (b) in paragraph (4)—
  - (i) in sub-paragraph (a), for “the lists” to the end substitute “a list drawn up in accordance with retained direct EU legislation for the species concerned or from which imports are otherwise prohibited under that legislation of approved third countries, or if imports from that country or territory are otherwise prohibited”;
  - (ii) in sub-paragraph (c), for “legislation of the European Union” substitute “retained direct EU legislation relating to importation”;

- (iii) yn is-baragraff (d), yn lle “deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir”;
- (c) ym mharagraff (5)(b), ar ôl “gynnyrch arall” mewnosoder “neu anifail byw”.
- 12. Yn rheoliad 17—**
- (a) yn lle “yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth” rhodder “ym Mhrydain Fawr”;
- (b) yn lle “hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith ei fod wedi cyrraedd” rhodder “hysbysu’r awdurdod priodol ar unwaith ei fod wedi cyrraedd, ac at y diben hwn ystyr “awdurdod priodol” (“*appropriate authority*”) yw Gweinidogion Cymru (o ran Cymru), yr Ysgrifennydd Gwladol (o ran Lloegr) a Gweinidogion yr Alban (o ran yr Alban)”.
- 13. Yn rheoliad 18—**
- (a) ac eithrio yn y lle cyntaf y mae’n digwydd ym mharagraff (3), ym mhob lle arall, gan gynnwys yn y pennawd, yn lle “i’r Deyrnas Unedig” rhodder “i Brydain Fawr”;
- (b) ym mharagraff (2)—
- (i) yn lle “anifail a draddodir i gyrchfan y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “anifail a fewnforir”;
- (ii) yn lle “y gyrchwlad” rhodder “y wlad neu’r diriogaeth a gyrchir”;
- (c) ym mharagraff (3), yn lle “sy’n cyrraedd safle rheoli ar y ffin sydd â chyrchfan derfynol y tu allan i’r Deyrnas Unedig” rhodder “a fewnforir”;
- (d) ym mharagraff (4)—
- (i) yn lle “yn yr Undeb Ewropeaidd” rhodder “yn Ynysoedd Prydain”;
- (ii) yn lle “i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “i unrhyw un o diriogaethau Ynysoedd Prydain”.
- 14. Yn rheoliad 19—**
- (a) ym mharagraff (a), yn lle “arolygfa ffin” rhodder “safle rheoli ar y ffin”;
- (b) ym mharagraff (b), yn y testun Saesneg, ar ôl “CHED or” mewnosoder “without”.
- 15. Yn rheoliad 20—**
- (a) ym mhob lle y mae’n digwydd, yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (b) ym mharagraff (1), yn lle “yn Erthygl 1(2)” rhodder “ym Mhennod 5 o Deitl 2”;
- (iii) in sub-paragraph (e), for “legislation of the European Union” substitute “retained direct EU legislation”;
- (c) in paragraph (5)(b), after “product” insert “or live animal”.
- 12. In regulation 17—**
- (a) for “the United Kingdom or a member State” substitute “Great Britain”;
- (b) for “Welsh Ministers of its arrival” substitute “appropriate authority of its arrival, and for this purpose “appropriate authority” (“*awdurdod priodol*”) means the Secretary of State (in relation to England), the Welsh Ministers (in relation to Wales) and the Scottish Ministers (in relation to Scotland)”.
- 13. In regulation 18—**
- (a) except in the first place it occurs in paragraph (3), in each other place, including in the heading, for “the United Kingdom” substitute “Great Britain”;
- (b) in paragraph (2)—
- (i) for “animal consigned to a destination outside the European Union” substitute “imported animal”;
- (ii) after “country” insert “or territory”;
- (c) in paragraph (3), for “Products that arrive at a border control post for an ultimate destination outside the United Kingdom, and” substitute “Imported products”;
- (d) in paragraph (4)—
- (i) in the first place it occurs, for “the European Union” substitute “the British Islands”;
- (ii) in the second place it occurs, for “the European Union” substitute “any of the territories of the British Islands”.
- 14. In regulation 19—**
- (a) in paragraph (a), for “inspection” substitute “control”;
- (b) in paragraph (b), in the English language text, after “CHED or” insert “without”.
- 15. In regulation 20—**
- (a) in each place it occurs, for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”;
- (b) in paragraph (1), for “Article 1(2)” substitute “Chapter 5 of Title 2”;

- (c) ym mharagraff (2)—
  - (i) ar ôl “gynrychiolydd y mewnoforiwr,” mewnosoder “ac yn unol ag Erthygl 68(1)(b) o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol,”;
  - (ii) yn lle “i’r Deyrnas Unedig” rhodder “i Gymru”;
- (d) ym mharagraff (3)—
  - (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “Caiff y milfeddyg” rhodder “Rhaid i’r milfeddyg”;
  - (ii) yn is-baragraff (a), yn lle “yn Erthygl 1(2)” rhodder “ym Mhennod 5 o Deitl 2”;
  - (iii) yn is-baragraff (b)—
    - (aa) yn lle “i’r Undeb Ewropeaidd” rhodder “i Brydain Fawr”;
    - (bb) yn lle “i gyrraedd” rhodder “o ddyddiad yr hysbysiad swyddogol o benderfyniad yr awdurdod gorfodi ar ôl i’r llwyth gyrraedd”.

**16.** Yn rheoliad 21, yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

**17.** Yn rheoliad 22—

- (a) ym mharagraff (1)—
  - (i) yn lle “i’r Deyrnas Unedig” rhodder “i Brydain Fawr”;
  - (ii) yn lle “mae’r rheoliad hwn yn gymwys” hyd at y diwedd rhodder “caiff yr awdurdod gorfodi ofyn am wiriadau ffisegol ychwanegol a chymryd samplau i’w profi neu i’w dadansoddi o lwythi dilynol o’r ffynhonnell dan sylw a chymryd mesurau priodol yn unol ag Adran 3 o Bennod 5 o Deitl 2 o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (b) ym mharagraff (3), ar y diwedd mewnosoder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (c) yn lle paragraff (4) rhodder—
 

“(4) Pan hysbysir y person sy’n gyfrifol am lwythi y bydd angen gwiriadau ychwanegol yn unol â pharagraff (1), rhaid i’r person hwnnw, cyn i lwythi yn y dyfodol gyrraedd unrhyw safle rheoli ar y ffin, gyflwyno blaendal neu warant i’r awdurdod gorfodi perthnasol sy’n ddigon i dalu’r holl gostau y bydd yr awdurdod gorfodi hwnnw’n mynd iddynt, gan gynnwys costau cymryd samplau a chynnal profion neu ddadansoddiadau.”

- (c) in paragraph (2)—
  - (i) after “representative,” insert “and in accordance with Article 68(1)(b) of the Official Controls Regulation,”;
  - (ii) for the “United Kingdom” substitute “Wales”;
- (d) in paragraph (3)—
  - (i) in the words before sub-paragraph (a), for “may” substitute “must”;
  - (ii) in sub-paragraph (a), for “Article 1(2)” substitute “Chapter 5 of Title 2”;
  - (iii) in sub-paragraph (b)—
    - (aa) for “the European Union” substitute “Great Britain”;
    - (bb) for “from arrival” substitute “of the date of the official notification of the decision of the enforcement authority after arrival of the consignment”.

**16.** In regulation 21, for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”.

**17.** In regulation 22—

- (a) in paragraph (1)—
  - (i) for “the United Kingdom” substitute “Great Britain”;
  - (ii) for “this regulation applies” to the end substitute “the enforcement authority may require extra physical checks and take samples for testing or analysis from subsequent consignments from the source concerned and take appropriate measures in accordance with Section 3 of Chapter 5 of Title 2 of the Official Controls Regulation”;
- (b) in paragraph (3), at the end insert “of the Official Controls Regulation”;
- (c) for paragraph (4) substitute—
 

“(4) Where the person responsible for consignments is informed that extra checks will be required in accordance with paragraph (1), that person must, before the arrival of future consignments at any border control post, lodge with the relevant enforcement authority a deposit or guarantee sufficient to cover all costs incurred by that enforcement authority, including the costs of taking samples and carrying out tests or analysis.”

18. Yn rheoliad 23—

- (a) ym mharagraff (1), yn lle “yn Erthygl 1(2)” rhodder “ym Mhennod 5 o Deitl 2”;
- (b) ym mhob lle y mae’n digwydd, yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

19. Yn rheoliad 26—

- (a) yn y pennawd, ar ôl “Eithrio” mewnosoder “, rhanddirymu ac addasiadau”;
- (b) daw’r testun presennol yn baragraff (1);
- (c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—
  - “(2) Mae darpariaethau’r Rhan hon yn gymwys yn ddarostyngedig i’r rhanddirymiadau a’r addasiadau a nodir yn Atodlen 5.
  - (3) Mae paragraff (2) (ac Atodlen 5) yn cael effaith ac yn parhau mewn grym o’r adeg yn union ar ôl diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu tan ddiwedd y dydd ar 31 Gorffennaf 2021.”

20. Yn rheoliad 27—

- (a) ym mhob lle y mae’n digwydd, yn lle “o’r Undeb” rhodder “o Brydain Fawr”;
- (b) hepgorer paragraff (1A);
- (c) ym mharagraff (3)(a)—
  - (i) hepgorer “yn yr Aelod-wladwriaeth lle y dyroddwyd y dystysgrif”;
  - (ii) yn lle “yr arolygfa ffin” rhodder “y safle rheoli ar y ffin”.

21. Yn lle rheoliad 28 rhodder—

**“Derbyn cynhyrchion i warysau gan gydymffurfio â gweithdrefnau’r Tollau a gweithdrefnau storio**

28. Ni chaiff neb ddod â llwyth o gynhyrchion i Brydain Fawr nad yw’n cydymffurfio â gofynion mewnfario’r Rheoliadau hyn a gweithdrefnau’r Tollau a’r gweithdrefnau storio ar gyfer mewnfario yn Neddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018(1).”

22. Yn rheoliad 29—

- (a) ym mharagraff (1)—
  - (i) yn lle “i’r Deyrnas Unedig”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “i Brydain Fawr”;

18. In regulation 23—

- (a) in paragraph (1), for “Article 1(2)” substitute “Chapter 5 of Title 2”;
- (b) in each place it occurs, for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”.

19. In regulation 26—

- (a) in the heading, after “Exclusions” insert “, derogations and modifications”;
- (b) the existing text becomes paragraph (1);
- (c) after paragraph (1) insert—
  - “(2) The provisions of this Part apply subject to the derogations and modifications set out in Schedule 5.
  - (3) Paragraph (2) (and Schedule 5) have effect and remain in force from immediately after implementation period completion day until the end of the day on 31 July 2021.”

20. In regulation 27—

- (a) in each place it occurs, for “the Union” substitute “Great Britain”;
- (b) omit paragraph (1A);
- (c) in paragraph (3)(a)—
  - (i) omit “in the member State where the certificate was issued”;
  - (ii) for “inspection” substitute “control”.

21. For regulation 28 substitute—

**“Admission of products into warehouses in compliance with Customs procedures and storage procedures**

28. No person may bring into Great Britain a consignment of products that does not comply with the import requirements of these Regulations and the Customs procedures and storage procedures on imports in the Taxation (Cross-border Trade) Act 2018(1).”

22. In regulation 29—

- (a) in paragraph (1)—
  - (i) for “the United Kingdom”, in both places it occurs, substitute “Great Britain”;



- (ii) yn is-baragraff (a), ar ôl “mewn gwlad” mewnosoder “neu diriogaeth”; ac ar ôl “o’r wlad”, yn y ddau le y mae’n digwydd, mewnosoder “neu’r diriogaeth”;
- (iii) yn is-baragraff (b), yn lle “Reoliad yr UE” hyd at “Aelod-wladwriaeth” rhodder “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol mewn perthynas â mewnfôrion”;
- (b) ym mharagraff (2)—
  - (i) yn is-baragraff (a), ar ôl “wlad” mewnosoder “neu’r diriogaeth”;
  - (ii) yn is-baragraff (b)(ii)—
    - (aa) hepgorer “o’r Undeb Ewropeaidd”;
    - (bb) yn lle “Reoliad yr UE” rhodder “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
    - (cc) yn lle “gwledydd eraill” rhodder “trydydd gwledydd”.

**23.** Yn rheoliad 32(4), yn lle “Erthygl 134 o Reoliad (EU) Rhif 952/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n nodi Cod Tollau’r Undeb” rhodder “Ddeddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018”.

**24.** Yn rheoliad 34(f), yn lle “Reoliad yr UE” rhodder “y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

**25.** Yn rheoliad 35—

- (a) ym mharagraff (1)—
  - (i) yn y lle cyntaf y mae’n digwydd, yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi priodol”;
  - (ii) yn yr ail le y mae’n digwydd, yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi hwnnw”;
- (b) ym mharagraff (3)—
  - (i) yn lle “Gweinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi priodol”;
  - (ii) yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi hwnnw”;
  - (iii) yn lle “yn unol ag Erthygl 1(2) o Reoliad yr UE” rhodder “yn unol â Phennod 5 o Deitl 2 o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
- (c) ym mharagraffau (4) i (6), ym mhob lle y mae’n digwydd, yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “yr awdurdod gorfodi”.

**26.** Yn rheoliad 36, ym mhob lle y mae’n digwydd, yn lle “neu Reoliad yr UE” rhodder “neu’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

- (ii) in sub-paragraph (a), after “country”, in both places it occurs, insert “or territory”;
- (iii) in sub-paragraph (b), for “EU Regulation” to “a member State” substitute “Official Controls Regulation in relation to imports”;
- (b) in paragraph (2)—
  - (i) in sub-paragraph (a), after “country” insert “or territory”;
  - (ii) in sub-paragraph (b)(ii)—
    - (aa) omit “from the European Union”;
    - (bb) for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”;
    - (cc) for “other countries” substitute “third countries”.

**23.** In regulation 32(4), for “Article 134 of Regulation (EU) No 952/2013 of the European Parliament and of the Council laying down the Union Customs Code” substitute “the Taxation (Cross-border Trade) Act 2018”.

**24.** In regulation 34(h), for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”.

**25.** In regulation 35—

- (a) in paragraph (1)—
  - (i) in the first place it occurs, for “the Welsh Ministers” substitute “the appropriate enforcement authority”;
  - (ii) in the second place it occurs, for “the Welsh Ministers” substitute “that enforcement authority”;
- (b) in paragraph (3)—
  - (i) in the first place it occurs, for “the Welsh Ministers” substitute “the appropriate enforcement authority”;
  - (ii) in the second place it occurs, for “the Welsh Ministers” substitute “that enforcement authority”;
  - (iii) for “Article 1(2) of the EU Regulation” substitute “Chapter 5 of Title 2 of the Official Controls Regulation”;
- (c) in paragraphs (4) to (6), in each place it occurs, for “Welsh Ministers” substitute “enforcement authority”.

**26.** In regulation 36, in each place it occurs, for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”.

27. Yn rheoliad 37(1), yn lle “i’r awdurdodau gorfodi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon” rhodder “i awdurdod gorfodi mewn unrhyw un o diriogaethau Ynsoedd Prydain”.

28. Yn rheoliad 38—

- (a) yn lle “Weinidogion Cymru” rhodder “awdurdod gorfodi”;
- (b) yn lle “o Reoliad yr UE” rhodder “o’r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

29. Yn rheoliad 39, yn y tabl—

- (a) hepgorer y rhesi ar gyfer “rheoliad 5(1) ac (1A)” hyd at “rheoliad 7” (gan gynnwys y cofnodion cyfatebol yn yr ail golofn);
- (b) yn y rhesi ar gyfer “rheoliad 16(1)” a “rheoliad 16(2)”, yn y cofnodion cyfatebol yn yr ail golofn yn lle “DMMG” rhodder “DMIG”;
- (c) yn y rhes ar gyfer “rheoliad 28”, yn lle’r cofnod cyfatebol yn yr ail golofn rhodder “Mewnforio cynnyrch nad yw’n cydymffurfio â gofynion mewnforio’r Rheoliadau hyn a gweithdrefnau’r Tollau a’r gweithdrefnau storio ar gyfer mewnforion yn Neddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018”;
- (d) yn yr adran ar gyfer Atodlen 2, hepgorer y rhesi ar gyfer “paragraff 5(1)” hyd at “paragraff 7” (gan gynnwys y cofnodion cyfatebol yn yr ail golofn);
- (e) hepgorer y rhes ar gyfer “Atodlen 3 paragraff 4(3)” (gan gynnwys y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn).

30. Yn Atodlen 2—

- (a) yn lle’r cyfeirnod cwr tudalen, rhodder “Rheoliad 25”;
- (b) hepgorer Rhan 1;
- (c) yn Rhan 2, hepgorer paragraff 10.

31. Yn Atodlen 3—

- (a) yn lle’r cyfeirnod cwr tudalen rhodder “Rheoliad 26(1)”;
- (b) ym mharagraff 2, yn lle “o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn” hyd at y diwedd rhodder “o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122”;
- (c) ym mharagraff 4—
  - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “Reoliad (EU) Rhif 142/2011” rhodder “Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011”;
  - (ii) hepgorer is-baragraff (2);

27. In regulation 37(1), for “the enforcement authorities in England, Scotland and Northern Ireland” substitute “an enforcement authority in any of the territories of the British Islands”.

28. In regulation 38—

- (a) for “Welsh Ministers” substitute “enforcement authority”;
- (b) for “EU Regulation” substitute “Official Controls Regulation”.

29. In regulation 39, in the table—

- (a) omit the rows for “regulation 5(1) and (1A)” to “regulation 7” (including the corresponding entries in the second column);
- (b) in the rows for “regulation 16(1)” and “regulation 16(2)”, in the corresponding entries in the second column for “CVED” substitute “CHED”;
- (c) in the row for “regulation 28”, for the corresponding entry in the second column substitute “Importing a product that does not comply with the import requirements of these Regulations and the Customs procedures and storage procedures on imports in the Taxation (Cross-border Trade) Act 2018”;
- (d) in the section for Schedule 2, omit the rows for “paragraph 5(1)” to “paragraph 7” (including the corresponding entries in the second column);
- (e) omit the row for “Schedule 3 paragraph 4(3)” (including the corresponding entry in the second column).

30. In Schedule 2—

- (a) for the shoulder reference, substitute “Regulation 25”;
- (b) omit Part 1;
- (c) in Part 2, omit paragraph 10.

31. In Schedule 3—

- (a) for the shoulder reference substitute “Regulation 26(1)”;
- (b) in paragraph 2, for “the Commission Delegated Regulation” to the end substitute “Commission Delegated Regulation (EU) 2019/2122”;
- (c) in paragraph 4—
  - (i) in sub-paragraph (1), for “Regulation (EU) No 142/2011” substitute “Commission Regulation (EU) No 142/2011”;
  - (ii) omit sub-paragraph (2);

(d) yn lle paragraff 5 rhodder—

**“Achos 4: Llwythi a gliriwyd ym Mhrydain Fawr**

5. Llwythi o anifeiliaid a chynhyrchion o drydydd gwledydd a gyflwynwyd i unrhyw safle rheoli ar y ffin ym Mhrydain Fawr ac a gliriwyd ar gyfer cylchrediad rhydd.”;

(e) ym mharagraff 6(2)(ch), yn lle “mewn iaith swyddogol Aelod-wladwriaeth” rhodder “mewn Saesneg (p’un a yw’n ymddangos mewn unrhyw iaith arall ai peidio)”.

32. Ar ôl Atodlen 4 mewnosoder—

**“ATODLEN 5** Rheoliad 26(2)

Cymhwyso Rhan 3, ei rhanddirymu a’u haddasu, mewn perthynas â thiriogaethau sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig

**RHAN 1**

Rhagarweiniol

**Cymhwyso**

1. Mae’r Atodlen hon yn gymwys i gynhyrchion ac anifeiliaid byw sy’n tarddu o’r canlynol—

- (a) tiriogaeth sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig; neu
- (b) trydedd wlad heblaw tiriogaeth sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig lle bo’r cynhyrchion neu’r anifeiliaid byw dan sylw, cyn cael eu mewnforio i Gymru—
  - (i) wedi eu cyflwyno i safle rheoli ar y ffin mewn Aelod-wladwriaeth a gydnabyddir gan Weinidogion Cymru;
  - (ii) â DMIG yn cyd-fynd â hwy sydd wedi ei llenwi er boddhad yr awdurdod perthnasol; a
  - (iii) wedi eu rhaghsbysu.

(d) for paragraph 5 substitute—

**“Case 4: Consignments cleared in Great Britain**

5. Consignments of animals and products from third countries that have been presented to any border control post in Great Britain and cleared for free circulation.”;

(e) in paragraph 6(2)(d), for “an official language of a member State” substitute “English (whether or not it also appears in any other language)”.

32. After Schedule 4 insert—

**“SCHEDULE 5** Regulation 26(2)

Application of, derogations from, and modifications to, Part 3 in relation to territories subject to special transitional import arrangements

**PART 1**

Introductory

**Application**

1. This Schedule applies to products and live animals that originate from—

- (a) a territory subject to special transitional import arrangements; or
- (b) a third country other than a territory subject to special transitional import arrangements where, before importation into Wales, the products or live animals concerned—
  - (i) have been presented to a member State border control post recognised by the Welsh Ministers;
  - (ii) are accompanied by a CHED which has been completed to the satisfaction of the relevant authority; and
  - (iii) have been pre-notified.

## Dehongli

### 2. At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw diwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul nad yw’n ddydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu ŵyl banc o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

ystyr “nwyddau perthnasol” (“*relevant goods*”) yw cynhyrchion ac anifeiliaid byw sy’n dod o fewn paragraff 1;

ystyr “rhaghysbysu” (“*pre-notified*”) yw hysbysu gan ddefnyddio’r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol;

ystyr “tiriogaeth sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnfario trosiannol arbennig” (“*territory subject to special transitional import arrangements*”) yw—

- (a) un o Aelod-wladwriaethau’r UE;
- (b) Ynysoedd Ffaröe;
- (c) Yr Ynys Las;
- (d) Gwlad yr Iâ;
- (e) Liechtenstein;
- (f) Norwy;
- (g) Y Swistir.

### Cymhwyso Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn, ei rhanddirymu a’u haddasu

3. Mae darpariaethau Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn yn gymwys i nwyddau perthnasol gyda’r rhanddirymiadau a’r addasiadau a bennir yn Rhan 2 o’r Atodlen hon.

## RHAN 2

Rhanddirymu Rhan 3 o’r Rheoliadau hyn a’i haddasu

### Rhanddirymu rheoliad 13: lle mewnfario

4.—(1) Nid yw rheoliad 13 yn gymwys i nwyddau perthnasol.

(2) Nid yw’n ofynnol i nwyddau perthnasol ddod i Gymru drwy safle rheoli ar y ffin a chaniateir iddynt ddod i Gymru drwy unrhyw bwynt mynediad.

## Interpretation

### 2. For the purposes of this Schedule—

“pre-notified” (“*rhaghysbysu*”) means notified using the appropriate computerised information management system;

“relevant goods” (“*nwyddau perthnasol*”) means products and live animals falling within paragraph 1;

“territory subject to special transitional import arrangements” (“*tiriogaeth sy’n ddarostyngedig i drefniadau mewnfario trosiannol arbennig*”) means—

- (a) an EU member State;
- (b) the Faroe Islands;
- (c) Greenland;
- (d) Iceland;
- (e) Liechtenstein;
- (f) Norway;
- (g) Switzerland;

“working day” (“*diwrnod gwaith*”) means a day other than Saturday or Sunday which is not Christmas Day, Good Friday or a bank holiday under section 1 of the Banking and Financial Dealings Act 1971(1).

### Application of, derogations from, and modifications to, Part 3 of these Regulations

3. The provisions of Part 3 of these Regulations apply to relevant goods with the derogations and modifications specified in Part 2 of this Schedule.

## PART 2

Derogations from, and modifications to, Part 3 of these Regulations

### Derogation from regulation 13: place of importation

4.—(1) Regulation 13 does not apply to relevant goods.

(2) Relevant goods are not required to enter Wales through a border control post and may enter Wales through any point of entry.

(1) 1971 p. 80.

(1) 1971 c. 80.

#### **Rhanddirymu rheoliad 14: amseru hysbysiad mewnforio**

5.—(1) Nid yw rheoliad 14 yn gymwys i nwyddau perthnasol.

(2) O 1 Ionawr 2021 ymlaen, rhaid i nwyddau perthnasol o'r disgrifiadau a ganlyn gael eu rhaghysbysu o leiaf un diwrnod gwaith cyn yr amser y disgwylir iddynt gyrraedd pwynt mynediad i Gymru—

- (a) anifeiliaid byw;
- (b) cynhyrchion eginol;
- (c) sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n ffurfio—
  - (i) deunydd Categori 1;
  - (ii) deunydd Categori 2;
  - (iii) protein anifeiliaid wedi ei brosesu sy'n deillio o ddeunydd Categori 3,

ond pan all y mewnforiwr ddarparu tystiolaeth o gyfyngiad logistaidd sy'n atal hysbysiad o'r fath, caniateir i'r gofyniad hwnnw gael ei fodloni drwy hysbysu'r amser y disgwylir iddynt gyrraedd o leiaf bedair awr ymlaen llaw.

(3) O 1 Ebrill 2021 ymlaen, rhaid i nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid gael eu rhaghysbysu o leiaf un diwrnod gwaith cyn yr amser y disgwylir iddynt gyrraedd pwynt mynediad i Gymru; ond pan all y mewnforiwr ddarparu tystiolaeth o gyfyngiad logistaidd sy'n atal hysbysiad o'r fath, caniateir i'r gofyniad hwnnw gael ei fodloni drwy hysbysu'r amser y disgwylir iddynt gyrraedd o leiaf bedair awr ymlaen llaw.

(4) At ddibenion y paragraff hwn—

- (a) mae i “deunydd Categori 1”, “deunydd Categori 2” a “deunydd Categori 3” yr ystyr a roddir i “Category 1 material”, “Category 2 material” a “Category 3 material” yn Erthyglau 8 i 10 o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009;
- (b) mae i “protein anifeiliaid wedi ei brosesu” yr ystyr a roddir i “processed animal protein” ym mhwynt 5 o Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

#### **Rhanddirymu rheoliad 15: gweithdrefn wrth fewnforio**

6.—(1) Nid yw rheoliad 15 yn gymwys i nwyddau perthnasol ond—

- (a) rhaid i reolaethau swyddogol ddigwydd yn y gyrchfan a nodir yn y dogfennau mewnforio cysylltiedig perthnasol ar hap neu ar sail y risg, ac yn unol â rheoliad 29 a 35;

#### **Derogation from regulation 14: timing of notification of importation**

5.—(1) Regulation 14 does not apply to relevant goods.

(2) From 1 January 2021, relevant goods of the following descriptions must be pre-notified at least one working day before the expected time of arrival at a point of entry into Wales—

- (a) live animals;
- (b) germinal products;
- (c) animal by-products comprising—
  - (i) Category 1 material;
  - (ii) Category 2 material;
  - (iii) processed animal protein derived from Category 3 material,

but where the importer can provide evidence of a logistical constraint preventing such notification, that requirement may be satisfied by notification of its expected time of arrival at least four hours in advance.

(3) From 1 April 2021, relevant goods consisting of products of animal origin must be pre-notified at least one working day before the expected time of arrival at a point of entry into Wales; but where the importer can provide evidence of a logistical constraint preventing such notification, that requirement may be satisfied by notification of its expected time of arrival at least four hours in advance.

(4) For the purposes of this paragraph—

- (a) “Category 1 material”, “Category 2 material” and “Category 3 material” have the meanings given in Articles 8 to 10 of Regulation (EC) No 1069/2009;
- (b) “processed animal protein” has the meaning given in point 5 of Annex 1 to Commission Regulation (EU) No 142/2011.

#### **Derogation from regulation 15: procedure on importation**

6.—(1) Regulation 15 does not apply to relevant goods but—

- (a) official controls must take place at the place of destination indicated in the relevant accompanying importation documentation on a random or risk basis, and in accordance with regulation 29 and 35;

- (b) o 1 Ionawr 2021 ymlaen, o ran nwyddau perthnasol sy'n cynnwys—
  - (i) anifeiliaid byw neu gynhyrchion eginol ni chaniateir eu mewnfurio i Gymru oni bai bod y dystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnfurion o drydedd wlad yn cyd-fynd â hwy, ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol;
  - (ii) cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid a sgil-gynhyrchion anifeiliaid rhaid iddynt gael dogfennau masnachol perthnasol yn cyd-fynd â hwy sydd o leiaf yn nodi'r fangre wreiddiol a'r gyrchfan ac sy'n cynnwys disgrifiad o'r cynnyrch a swm y cynnyrch; ac
- (c) o 1 Ebrill 2021 ymlaen, ni chaniateir mewnfurio nwyddau perthnasol sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid i Gymru oni bai bod y dystysgrif iechyd briodol ar gyfer mewnfurion o drydedd gwlad yn cyd-fynd â hwy, ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Rhaid i'r dogfennau a ddisgrifir yn is-baragraff (1)(b) ac (c) gyd-fynd â'r llwyth o nwyddau perthnasol o dan sylw i'w gyrchfan.

**Rhanddirymu rheoliad 19(a): llwythi heb eu gwirio**

7. Nid yw rheoliad 19(a) yn gymwys i nwyddau perthnasol sydd wedi dod i Gymru drwy bwynt mynediad heblaw safle rheoli ar y ffin yn unol â'r Atodlen hon.

**Addasu rheoliad 20: gweithredu yn dilyn methiant gwiriadau neu yn dilyn cipio – cynhyrchion**

8. Mae rheoliad 20 yn gymwys fel pe bai—
- (a) ym mharagraff (1), “neu, yn achos nwyddau perthnasol, nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 5” wedi ei fewnosod ar ôl “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”;
  - (b) ym mharagraff (3)(b)—
    - (i) “o'r un safle rheoli ar y ffin” wedi ei hepgor;
    - (ii) “Cymru” wedi ei roi yn lle “y safle rheoli ar y ffin”.

- (b) from 1 January 2021, relevant goods consisting of—
  - (i) live animals or germinal products may not be imported into Wales unless they are accompanied by the appropriate health certificate for third country imports, in the form published by the Welsh Ministers or the Secretary of State;
  - (ii) products of animal origin and animal by-products must be accompanied by relevant commercial documents which at least identify the premises of origin and destination, and contain a description of the product and the quantity of the product; and
- (c) from 1 April 2021, relevant goods consisting of products of animal origin may not be imported into Wales unless they are accompanied by the appropriate health certificate for third country imports, in the form published by the Welsh Ministers or the Secretary of State.

(2) The documents described in sub-paragraph (1)(b) and (c) must accompany the consignment of the relevant goods concerned to its place of destination.

**Derogation from regulation 19(a): unchecked consignments**

7. Regulation 19(a) does not apply to relevant goods which have entered Wales through a point of entry other than a border control post in accordance with this Schedule.

**Modification of regulation 20: action following failure of checks or seizure - products**

8. Regulation 20 applies as if—
- (a) in paragraph (1), after “Official Controls Regulation” there were inserted “or, in the case of relevant goods, does not comply with the provisions of Schedule 5”;
  - (b) in paragraph (3)(b)—
    - (i) “from the same border control post” were omitted;
    - (ii) for “at the border control post” there were substituted “into Wales”.

### **Addasu rheoliad 23: gweithredu yn dilyn methiant gwiriadau neu yn dilyn cipio – anifeiliaid**

9. Mae rheoliad 23 yn gymwys fel pe bai, ym mharagraff (1), “neu, yn achos nwyddau perthnasol, nad yw’n cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 5” wedi ei fewnosod ar ôl “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol”.

### **Rhanddirymu rheoliad 27: ailfewnforio anifeiliaid a chynhyrchion**

10.—(1) Nid yw rheoliad 27 yn gymwys o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-baragraff (2).

(2) Nid yw’n ofynnol i gynhyrchion ac anifeiliaid byw sy’n tarddu o Gymru ac y gwrthodwyd iddynt fynd i’r Undeb Ewropeaidd mewn un o safleoedd rheoli’r Undeb Ewropeaidd ar y ffin ddod i mewn i Gymru eto drwy safle rheoli ar y ffin—

- (a) yn achos cynhyrchion ac anifeiliaid byw nad ydynt yn peri risg uchel, os oes hysbysiad wedi ei roi i Weinidogion Cymru neu i’r Asiantaeth Safonau Bwyd eu bod yn dod i mewn i Gymru eto;
- (b) yn achos cynhyrchion ac anifeiliaid byw sydd yn peri risg uchel, os yw Gweinidogion Cymru neu’r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi awdurdod mewn ysgrifen iddynt ddod i mewn eto cyn eu bod i fod i ddod i mewn eto.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr “risg uchel” yw yr amheuir bod y cynhyrchion neu’r anifeiliaid byw yn peri risg ddifrifol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu i les anifeiliaid.

## **RHAN 3**

Rheolau ychwanegol mewn perthynas â nwyddau perthnasol sy’n anifeiliaid byw

### **Anifeiliaid byw**

11.—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â nwyddau perthnasol sy’n anifeiliaid byw.

(2) Rhaid i’r anifeiliaid byw barhau i gael eu symud dan gyfyngiadau yn y gyrchfan a nodir yn y dystysgrif iechyd hyd nes y bydd y dystysgrif iechyd wedi ei chwblhau ac wedi ei llofnodi wedi cael ei huwchlwytho i’r system rheoli gwybodaeth gyfrifiadurol briodol.

(3) Rhaid i’r person sy’n gyfrifol am gludo’r anifeiliaid byw i’r gyrchfan fod â’r awdurdod priodol ganddo yn unol â Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005.”

### **Modification of regulation 23: action following failure of checks or seizure - animals**

9. Regulation 23 applies as if, in paragraph (1), after “Official Controls Regulation” there were inserted “or, in the case of relevant goods, does not comply with the provisions of Schedule 5”.

### **Derogation from regulation 27: re-importation of animals and products**

10.—(1) Regulation 27 does not apply in the circumstances described in sub-paragraph (2).

(2) Products and live animals that originate from Wales and which have been rejected from entering the European Union at a European Union border control post are not required to re-enter Wales through a Welsh border control post if—

- (a) in the case of products and live animals that are not high risk, notification of the re-entry has been given to the Welsh Ministers or the Food Standards Agency;
- (b) in the case of products and live animals that are high risk, the re-entry has been authorised in writing by the Welsh Ministers or the Food Standards Agency before the re-entry is to take place.

(3) In this paragraph, “high risk” means the products or live animals are suspected of constituting a serious risk to human or animal health or animal welfare.

## **PART 3**

Additional rules in relation to relevant goods consisting of live animals

### **Live animals**

11.—(1) This paragraph applies in relation to relevant goods consisting of live animals.

(2) The live animals must remain under restricted movement at the place of destination indicated in the health certificate until the completed and signed health certificate has been uploaded to the appropriate computerised information management system.

(3) The person responsible for the transportation of the live animals to the place of destination must be in possession of the appropriate authorisation in accordance with Council Regulation (EC) No 1/2005.”

## RHAN 3

Diwygiadau canlyniadol i offerynnau statudol eraill

### **Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003**

**33.** Yng Ngorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(1), ym mharagraff 7 o Atodlen 1, hepgorer “a gymeradwywyd o dan Ran 1 o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011”.

### **Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**34.** Yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(2), hepgorer rheoliad 3.

### **Diwygio Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019**

**35.** Yn Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(3), hepgorer rheoliad 3.

### **Diwygio Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019**

**36.** Yn Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019(4), hepgorer rheoliad 2.

### **Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020**

**37.** Yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020(5), hepgorer rheoliad 29.

## PART 3

Consequential amendments of other statutory instruments

### **Amendment of the Disease Control (Wales) Order 2003**

**33.** In the Disease Control (Wales) Order 2003(1), in paragraph 7 of Schedule 1, omit “approved under Part 1 of Schedule 2 to the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011”.

### **Amendment of the Trade in Animals and Related Products (Amendment) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019**

**34.** In the Trade in Animals and Related Products (Amendment) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019(2), omit regulation 3.

### **Amendment of the Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019**

**35.** In the Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019(3), omit regulation 3.

### **Amendment of the Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) (No. 2) Regulations 2019**

**36.** In the Rural Affairs (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) (No. 2) Regulations 2019(4), omit regulation 2.

### **Amendment of the Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) Regulations 2020**

**37.** In the Official Controls (Animals, Feed and Food, Plant Health Fees etc.) (Wales) Regulations 2020(5), omit regulation 29.

---

(1) O.S. 2003/1966 (Cy. 211), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/674 (Cy. 156).

(2) O.S. 2019/597 (Cy. 126).

(3) O.S. 2019/737 (Cy. 140).

(4) O.S. 2019/1334 (Cy. 232).

(5) O.S. 2020/44 (Cy. 5).

---

(1) S.I. 2003/1966 (W. 211), amended by S.I. 2017/674 (W. 156).

(2) S.I. 2019/597 (W. 126).

(3) S.I. 2019/737 (W. 140).

(4) S.I. 2019/1334 (W. 232).

(5) S.I. 2020/44 (W. 5).



*Lesley Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,  
un o Weinidogion Cymru  
17 Rhagfyr 2020

Minister for Environment, Energy and Rural Affairs,  
one of the Welsh Ministers  
17 December 2020

---

©Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.





£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/1612>

ISBN 978-0-348-20712-5



9 780348 207125